**EITEM AR YR AGENDA: 16**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 20fed Rhagfyr 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am fater diwrnod gwaith diffoddwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd |

1. **CEFNDIR**

1.1 Casglodd yr Awdurdod Tân, yn ei Gynllun Integredig Rheoli Risg, y byddai amser dechrau a gorffen hwyrach ar gyfer diffoddwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd yn cael ei gyflwyno er mwyn i'r risg a'r adnoddau gyd-fynd mewn ffordd effeithiol. Roedd y penderfyniad hwn, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân yn ei gyfarfod ar 15fed Mawrth 2004, yn seiliedig ar werth tair blynedd o ddata (2000/01–2002/03) a oedd yn dangos yn glir nad oedd y diwrnod gwaith ar orsafoedd criw dydd yn cyd-fynd â'r cyfnodau mwyaf prysur o ran yr ochr weithredol. Mae copi o'r tudalennau perthnasol o'r Cynllun Risg ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

2, **GWYBODAETH**

2.1 Bydd yr aelodau wedi derbyn llythyr gan Ysgrifennydd Undeb y Brigadau Tân yng Ngogledd Cymru yn holi am ddilysrwydd y data a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad. Mae'r Prif Swyddog Tân wedi derbyn llythyr gan y Cynghorydd John Chorlton, Ynys Môn, yn gofyn i hyn gael ei godi yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 20fed Rhagfyr *(ynghlwm)*.

2.2 Yn y cyfarfod, bydd y Prif Swyddog Tân yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y data perthnasol.

3. **YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL**

Mae'r Clerc wedi cynghori:

3.1 Gyda chael gwared ar y safonau cenedlaethol gofal tân, mae'r cyfrifoldeb am benderfynu ynghylch materion o'r fath bellach gyda phob awdurdod tân ac achub yn unol â'i Gynllun Integredig Rheoli Risg. Dan Adran 7 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, rhaid i'r awdurdod "wneud darpariaeth at ddiben"

(a) diffodd tanau yn ei ardal, a
(b) gwarchod bywyd ac eiddo os oes tanau yn ei ardal"

3. **YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL** *(parhad)*

3.2 Os nad yw'r data mwy diweddar ar alw allan yn wahanol iawn i'r rhai a fu'n sail i'w benderfyniad ym Mawrth 2004, mae yna berygl y gallai unrhyw benderfyniad i fabwysiadu ffordd wahanol o fynd ati, gael ei herio ar sail afresymolrwydd a gallai hefyd gynyddu'r perygl i'r awdurdod gael ei erlyn yn llwyddiannus am beidio â chymryd camau rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd a osodwyd gan Adran 7 o Ddeddf 2004.

3.3 Atgoffir yr aelodau hefyd y cytunwyd y byddai'r newidiadau y cytunwyd arnynt ym Mawrth 2004 yn agored i gael eu monitro am effeithiolrwydd. Mae'r bwriad hwn yn cael ei ddatgan yn glir yng Nghynllun Gweithredu ail flwyddyn y Cynllun Risg sydd ar hyn o bryd allan ar ymgynghoriad cyhoeddus.

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Bod yr Aelodau'n derbyn y cyflwyniad ac yna'n penderfynu ar ymateb priodol i’r llythyr oddi wrth Undeb y Brigadau Tân.